

# Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

## YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.
2. Rydym wedi ymgynghori'n eang ar draws y sector gwirfoddol wrth ddrafftio'r ymateb hwn ac yn falch o gael y cyfle i fwydo amrediad eang o leisiau'r sector i mewn i'r cynlluniau ar gyfer y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22. Diolchwn i'r mudiadau a roddodd eu mewnbwn, gan gynnwys Gofal Canser Marie Curie, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW), y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain, Headway Caerdydd, Cyngor ar Bopeth, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Gofal a Thrwsio Cymru a Menter Siabod, yn ogystal â rhai ymatebion gan unigolion preifat.

## PRIF BWYNTIAU

3. Er bod yr ymateb hwn yn nodi nifer o argymhellion ar gyfer Cyllideb ddrafft 2020-21, dyma'r rhai pwysicaf yn ein barn ni. Ceir rhagor o fanylion ar bob un o'r pwyntiau hyn mewn rhannau eraill o'r ddogfen.
  - Er mwyn cyflawni ei rôl hanfodol o fewn cymunedau, yn ystod ac ar ôl y pandemig, a chan ystyried yr incwm y mae llawer o fudiadau wedi'i gollu, mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru roi cyllid pellach i'r mudiadau hynny o'r sector gwirfoddol a fydd yn cynorthwyo â'r gwaith adfer.
  - Dylai Llywodraeth Cymru geisio cynnig cylchoedd cyllido mwy hirdymor o dair blynedd neu ragor i helpu'r sector i fod yn fwy diogel a chynaliadwy yn y cyfnod ansicr hwn.
  - Dylai mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd fod yn ganolog i bob polisi a lunnir gan Lywodraeth Cymru o hyn ymlaen. Bydd yr adferiad gwyrdd yn hanfodol i 'ailgodi'n gryfach'.
  - Dylai'r nod polisi hirdymor anelu at atal tldi'n gyfan gwbl, yn hytrach na'i leihau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio trawslywodraethol a buddsoddi mewn swyddi cynaliadwy.

- Dylai darparwyr gwasanaethau geisio gweithio'n gydgyhyrchiol gyda chymunedau a'r sector o hyn ymlaen, os nad ydynt wedi bod yn gwneud hynny eisoes, a dylai Llywodraeth Cymru geisio cefnogi hyn lle bynnag y bo modd.
- Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i fod yn gynaliadwy, mae angen cyllido costau craidd mudiadau, heb ddisgwyl iddynt ddibynnu ar gyllid prosiectau tymor byr.
- Mae gennym bryderon mawr o hyd ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn enwedig yn sgil Bil y Farchnad Fewnol sydd, yn ôl pob golwg, yn mynd yn groes i'r setliad datganoli. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau i'r eithaf i sicrhau y gall Cymru benderfynu sut i wario ei chyfran o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd y sector yn parhau i geisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU yn hyn o beth.
- Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi yn y seilwaith gwirfoddoli er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o bobl sy'n cyfrannu drwy wirfoddoli mewn ffyrdd amrywiol.

## **BETH, YN EICH BARN CHI, FU EFFAITH CYLLIDEB 2020-21 LLYWODRAETH CYMRU, GAN GYNNWYS CYLLID DIWEDDAR SY'N GYSYLLTIEDIG Â COVID-19**

4. Mae argyfwng Covid-19 wedi peri i nifer o fudiadau'r sector gwirfoddol ac elusennau orfod lleihau eu gweithrediadau'n ddifrifol, naill ai drwy leihau staff, lleihau gwasanaethau neu gau safleoedd. Mae'r sector yn gwerthfawrogi'r camau cyflym a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid brys wedi'i dargedu ar gael yn fuan i gynorthwyo mudiadau yn ystod y pandemig.
5. Fel gweinyddwyr Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector (y Gronfa), deallwn fod y Gronfa wedi bod yn achubiaeth i lawer o fudiadau, gan gynnig incwm hanfodol i wneud iawn am golli gweithgareddau codi arian neu greu incwm. Mae gennym lawer o adborth i dystio am hyn. Mae Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol hefyd wedi galluogi oddeutu 6,000 o wirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau mwyaf agored i niwed Cymru, gan gyrraedd ffigurau uwchlaw 700,000. Mae cyflymder a hyblygrwydd y pecynnau cyllido rydym wedi gallu eu llunio wedi bod yn hanfodol. Roedd cydgynhyrchu â Llywodraeth Cymru yn hanfodol ac rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.
6. Fodd bynnag, mae mudiadau wedi adrodd problemau o ran cael gafael ar gyllid penodol wrth i'r argyfwng barhau; mae rhai wedi nodi amcanion ffrydiau cyllido yn mynd yn fwy cyfyng ac eraill wedi cael problemau o ran y prinder o ganllawiau eglur, ac nid oedd rhai ffrydiau – fel y Grant Busnes Cam 3 – wedi egluro ar y dechrau ei fod yn berthnasol i'r trydydd sector yn ogystal ag i'r sector preifat.
7. O ran effaith y gyllideb cyn y pandemig, mae AVOW a Gofal a Thrwsio Cymru wedi dweud na chawsant ostyngiad yn eu cyllid, ond ni chawsant unrhyw gynnydd yn unol â chwyddiant chwaith, gan eu gadael mewn sefyllfa waeth mewn termau real o un flwyddyn i'r llall.

## **SUT YDYCH CHI’N MEDDWL Y DYLAI BLAENORIAETHAU LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER 2021-22 NEWID I YMATEB I COVID-19**

8. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi dweud bod disgwyl i’r sector wneud mwy gyda llai yn barhaus. Ni ddylid caniatáu i hyn barhau yn y flwyddyn i ddod a thu hwnt. Dylai’r sector fod yn ganolog i’r gwaith adfer, ond mae’n rhaid iddo gael yr adnoddau i ateb y galwadau uwch ar ei wasanaethau, ac yn unol â’r rolau a ddisgrifir yn ‘Cymru Iachach’, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.
9. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau adfer er mwyn adeiladu gwydnwch ar draws cymunedau Cymru, drwy’r grwpiau gwirfoddol sy’n gweithredu yng nghanol y cymunedau hyn, a gwybod anghenion arbennig eu haelodau eu hunain. Yn benodol, gwnaeth y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain amlygu cymunedau yng Ngogledd Cymru, sydd wedi dibynnu’n draddodiadol ar ddiwydiant twristiaeth sy’n agos at ddiflannu.
10. Mae Marie Curie wedi amlygu fod gofal diwedd oes yn arbennig o bwysig ac angen datrysiadau cyllido cynaliadwy.
11. Mae CGGC yn cytuno â galwad Gofal a Thrwsio Cymru i weld penderfyniadau cyllidebu yn cydnabod ac yn cryfhau’r cyswllt rhwng iechyd da a chartref diogel. Nid yw iechyd meddyliol a chorfforol y rheini sy’n ddiartref neu mewn perygl o fod yn ddiartref gystal, am resymau amlwg. Mae Menter Siabod wedi galw am seibiant rhent neu les i denantiaid os ydynt wedi cael eu diswyddo yn ystod y pandemig.
12. Cafodd yr angen i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac iechyd meddwl ei amlygu hefyd gan nifer o fudiadau.
13. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru:
  - gefnogi estyniad arfaethedig y cynllun asedau segur er mwyn rhyddhau mwy o gyllid i Gymru, a bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gynyddu lefelau’r cyllid gwaddoledig.
  - Ehangu Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector er mwyn cynorthwyo’r sector i gynyddu ei wydnwch.
  - Datblygu Cronfa Adfer y Sector Gwirfoddol er mwyn cynorthwyo mudiadau i gyfrannu at adferiad gwyrdd a chyfiawn.
  - Cefnogi gwasanaethau seilwaith er mwyn adeiladu gwydnwch, gan gynnwys llywodraethu, gwasanaethau digidol, arallgyfeirio incwm a chyllid amgen.

## **PA MOR BAROD YN ARIANNOL YW EICH MUDIAD AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2021-22, A SUT GALL Y GYLLIDEB ROI RHAGOR O SICRWYDD ICHI WRTH**

## **GYNLLUNIO A RHEOLI CYLLIDBAU O YSTYRIED YR ANWADALRWYDD A'R ANSICRWYDD PARHAUS**

14. Er bod gan CGGC lefel resymol o gronfeydd wrth gefn, gwnaeth rhwymedigaeth cynllun pensiwn y llywodraeth leol gynyddu'n sylweddol ar ddiwedd mis Mawrth 2020 yn sgil Covid-19 a'i effaith ar y farchnad fyd-eang, o rwymedigaeth o ddim ond £100,000 i £1.54 miliwn.
15. Cafodd hyn effaith sylweddol ar lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol, gan leihau gwydnwch y mudiad wrth fynd i mewn i 2021-22, gan na wyddys eto pa effeithiau pellach allai fod ar ein rhwymedigaeth pensiwn ac, o ganlyniad, ein cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Llwyddasom i fantoli ein prif gyllideb weithredol ar gyfer 2020-21 - ond gwnaeth talu'r diffyg yng nghyfundaliad cynllun pensiwn y llywodraeth leol greu diffyg yn y gyllideb yn gyffredinol.
16. Ni wnaethom roi unrhyw aelod o'r staff ar ffyrlo a gwnaethom adleoli pobl pan oedd yn briodol er mwyn helpu i gefnogi'r lefelau uwch o gyllid grant a benthyciadau a gyflwynwyd i'r trydydd sector, ynghyd â darparu cyngor ar ganllawiau cyllido a llywodraethu yn ôl yr angen.
17. Ym mis Tachwedd, bydd CGGC yn dechrau llunio'r cynllun strategol ac ariannol ar gyfer 2021-22. Bydd yn edrych yn benodol ar ei flaenoriaethau a'i adnoddau ar gyfer 2021-22 ac, wrth reswm, po fwyaf fydd y sicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer 2021-22, lleia'n byd fydd y risg wrth wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at wasanaeth gwell i'r sector gwirfoddol.
18. Pe buasem yn cael gwybod y lefelau cyllid ar gyfer 2021-22 cyn diwedd 2020, byddai'n gwella'r broses gyllidebu'n fawr ac yn osgoi penderfyniadau diangen. Byddai cyllidebu mwy hirdymor hefyd o fudd – byddai cynlluniau tri neu bum mlynedd yn ddefnyddiol.
19. Mae'r pwynt olaf hwn yn berthnasol i bob rhan o'r sector, nid i CGGC yn unig. Byddai'r sector yn hoffi gweld cylchoedd cyllido tair blynedd fel lleiafswm – yn ddelfrydol, byddai'r rhain hyd at bum mlynedd. Rydym yn gwerthfawrogi bod hwn yn gyfnod mwy ansicr fyth – ond byddai cylchoedd mwy hirdymor nid yn unig o fudd i'r sector, ond hefyd o fudd i gymunedau ledled Cymru o ran sicrhau y byddant yn parhau i dderbyn y gwasanaethau y maen nhw'n dibynnu arnynt.
20. Mae mudiadau eraill yn lleisio pryderon ynghylch tenantiaid nad ydynt yn symud yn ôl i swyddfeydd, felly byddant yn colli ychydig o incwm anghyfyngedig. Mae gofidiau hefyd ynghylch y posibilrwydd y bydd gormod o arian yn cael ei symud tuag at waith cymorth ac adfer Covid-19, gan olygu y bydd llai o arian i fudiadau eraill y sector geisio bodloni eu dibenion craidd. Mae mudiadau yn parhau i boeni y bydd yn rhaid iddynt ddileu swyddi, os

nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes.

21. Mae'n hollbwysig fod cymaint â phosibl o waith cynllunio a pharatoi ariannol yn cael ei wneud er mwyn galluogi'r sector i baratoi ar gyfer y flwyddyn i ddod. Nodwn fod y Canghellor wedi cyhoeddi dyddiad ar gyfer ei Adolygiad Gwariant un mlynedd, ac rydym yn awyddus i weld sut allai hwn effeithio ar Gymru.
22. Mae'r [Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector](#) yn ddogfen eithriadol o bwysig o ran darparu'r egwyddorion a'r strwythur ar gyfer sut y cyllidir y sector gwirfoddol. Dylai cyllidwyr a'r rheini sy'n chwilio am gyllid gofio pwysigrwydd [Adennill Costau Llawn](#), gan gynnwys costau prosiect a gorbenion.

## **O YSTYRIED YR ANSICRWEYDD PARHAUS A'R AMGYLCHEDD CYLLIDO SY'N NEWID YN GYFLYM, A YDYCH CHI'N CREDU Y DYLLID NEWID Y GYLLIDEB A'R PROSES AU CRAFFU I SICRHAU TRYLOYWDER AC ATEBOLRWYDD GWEINIDOGOL DIGONOL?**

23. Fel y nodwyd mewn ymatebion blaenorol, mae'r sector yn parhau i bryderu nad oes digon o dryloywder na thystiolaeth i ddangos pam mae penderfyniadau cyllidebu penodol yn cael eu gwneud. Byddai'n ddefnyddiol pe bai dogfen y Gyllideb yn nodi'n glir sut bydd penderfyniadau'n fuddiol i saith nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

## **A YW'R FFRAMWAITH CYLLIDOL YN ADLEWYRCHU EFFAITH YR ARGYFWNG IECHYD CYHOEDDUS YNG NGHYMURU YN DDIGONOL O'I GYM HARU Â GWLEDYDD ERAILL Y DU AC A YDYCH CHI'N CEFNOGI CYN YDDU'R TERFYNAU BLYNYDDOL A / NEU GYFFREDINOL I FENTHYCA CYFREDOL LLYWODRAETH CYMRU O FEWN Y FFRAMWAITH HWN.**

24. Awgryma ein cyfraniad bod y sector yn cefnogi cynyddu'r terfynau blynyddol ar fenthyca, ond mae angen i'r broses hon fod yn dryloyw ac yn agored, gan sicrhau bod unrhyw ddyled a gronnir yn parhau i fod yn gynaliadwy.

### **SYLWADAU AR:**

## **SUT Y DYLLID TARGEDU ADNODDAU I GEFNOGI ADFERIAD ECONOMAIDD A PHA SECTORAU YN BENODOL Y MAE ANGEN EU BLAENORIAETHU.**

25. Mae [Porth data'r Sector Gwirfoddol](#) yn dangos y cyfraniad pwysig y mae'r sector yn ei wneud i'r economi:
  - Mae'r sector elusennau yn cyfri am bron 10% o'r gyflogaeth yng Nghymru.
  - Mae gan fudiadau'r sector gwirfoddol sydd wedi cofrestru yng Nghymru incwm blynyddol o £1,196 miliwn. Pe bai'r cyflog cyfartalog fesul awr (£12.50) yn cael ei

dalur ar gyfer y 61 miliwn o oriau y mae pobl yn eu treulio'n gwirfoddoli yng Nghymru bob blwyddyn, yna byddai amser gwirfoddoli'r wlad yn werth oddeutu £757 miliwn y flwyddyn.

26. Roedd yr ail bwynt bwled hwn yn dangos gwerth gwirfoddolwyr cyn y pandemig. Pa werth sydd ar y gweithgareddau gwirfoddol sy'n cael eu cyflawni nawr?
27. Wrth ymhél â'r sector, dengys mai iechyd, gofal cymdeithasol, y newid yn yr hinsawdd ac addysg yw'r meysydd pwysicaf i'w blaenoriaethu yn eu tyb nhw, ond cydnabyddir hefyd bod angen ailgodi'r maes twristiaeth a'r rôl y gall mentrau cymdeithasol ei chwarae fel rhan o'r adferiad economaidd.
28. Dylai darparu adnoddau ar gyfer y sector ei hun fod yn flaenoriaeth gan ystyried ei rôl allweddol yn y gwaith adfer – mae'n gweithio'n agosach gyda chymunedau na sectorau eraill. Mae hwn yn gyfle i ysgogi arferion caffael gwell er mwyn galluogi'r sector i wella ei gyfraniadau at gymunedau a chyfrannu mwy fyth atynt.
29. Gallai rhaglen Cyfoeth Cymunedol adeiladu'r strwythurau a'r capasiti i rymuso cymunedau, gan ddefnyddio gwersi o'r argyfwng a ffrydiau cyllido amgen fel Asedau Segur.

### **...I BA RADDAU Y DYLLID BLAENORIAETHU LLINIARU NEWID YN YR HINSAWDD WRTH GEFNOGI ADFERIAD ECONOMAIDD**

30. Mae'n rhaid i bob cynllun a phenderfyniad polisi a wneir gan Lywodraeth Cymru o hyn ymlaen ymwreiddio pryderon ynghylch yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd o'i fewn a cheisio cynnal ac annog yr ymddygiadau cymunedol ac unigol cadarnhaol newydd sydd wedi dod i'r golwg yn ystod y cyfyngiadau symud, lle bynnag y bo'n bosibl. Dylai Llywodraeth Cymru geisio creu amgylchedd cyllido a pholisi a fydd yn galluogi'r sector i chwarae ei ran yn y gwaith o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn yr ymateb disyfyd i'r pandemig.
31. Bydd yr adferiad gwyrdd yn hanfodol i 'ailgodi'n gryfach', ac mae gan y Partneriaethau Natur Lleol rôl arwyddocaol i'w chwarae yn y gwaith hwn, er enghraifft, gweithio gyda phartneriaid i nodi gweithgareddau seiliedig ar natur a datblygu sgiliau a strategaethau swyddi gwyrdd gyda chynlluniau prentisiaeth.

Fodd bynnag, bydd angen adnoddau a chymorth arnynt i wneud hyn yn effeithiol. Mae mudiadau amgylcheddol wedi dioddef colledion ariannol difrifol yn ystod y brigiad o achosion. Mae hyn wedi rhwystro eu gwaith hanfodol, a'r un fydd yr achos yn y dyfodol. Dylid gwneud gwaith ar ddadansoddi effeithiau'r argyfwng ar sector yr amgylchedd er mwyn pennu ei wydnwch a'r effaith ar ei wirfoddolwyr. Y gwirfoddolwyr hyn sy'n darparu'r gweithgareddau llawr gwlad sydd o fudd i ni i gyd.

32. Gall yr Economi Sylfaenol wneud cyfraniad enfawr at ddyfodol carbon isel, yn enwedig yn y meysydd cyflenwi bwyd a chynhyrchu ynni lleol. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad clir wedi ei wneud rhwng yr Economi Sylfaenol a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa dda i greu'r cysylltiad hwn, gan adeiladu ar [Fodel Cysyniadol WWF Cymru ar gyfer Economi Amgylcheddol a Sylfaenol \(Saesneg yn unig\)](#).
33. Mae gwaith Llywodraeth Cymru ar yr Economi Sylfaenol, yr economi carbon isel, datgarboneiddio'r sector cyhoeddus a'r Contract Economaidd yn darparu fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n rhaid rhoi'r strategaethau hyn ar waith yn effeithiol, ond rhaid i hyn gael ei wneud mewn modd cydlynol a chydgyhyrchiol â'r holl randdeiliaid.
34. Rydym yn ailadrodd galwad blaenorol Cyswllt Amgylchedd Cymru i fuddsoddi mewn swyddi gwyrdd a glas. Mae swyddi o'r fath, megis swyddi cadwraeth natur, rheoli tir a thwristiaeth gynaliadwy, rôl mewn adfer, amddiffyn a chynnal a chadw'r amgylchedd, ac maen nhw'n hanfodol ar gyfer sicrhau adferiad gwyrdd a chyfiawn. Fodd bynnag, dylai'r swyddi hyn gael llwybrau gyrfa diffiniedig a chael eu talu yn ôl y Cyflog Byw Gwirioneddol.
35. Mae angen newid y naratif. Yn rhy aml, caiff byd natur ei weld fel rhwystr i ddatblygu economaidd – er enghraifft, y trafodaethau ynghylch ffordd liniaru'r M4 – yn hytrach nag yn ased sy'n ategu datblygu economaidd. Mae angen ymgysylltu'n gynnar â chymunedau a chydgyhyrchu â nhw i ddangos sut gall natur fod yn rhan bwysig o'r adferiad economaidd.
36. Bydd toriadau i gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru, yn sgil Covid-19, yn cael effaith negyddol ar eu gwaith a'u gallu i gefnogi gwaith y sector gwirfoddol.

## **...POLISI'AU LLYWODRAETH CYMRU I LEIHOU TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU**

37. Dylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod ar ben blaen penderfyniadau cyllidebu. Gellir dadlau mai'r bobl dlotaf sydd wedi'u taro galetaf gan y pandemig, gyda phobl ar gyflogau isel dair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi colli eu swyddi neu eu rhoi ar ffyrlo na'r rheini ar gyflogau uchel ('Resolution Foundation', 2020). Amcangyfrifir fod 16% o boblogaeth oed gweithio Cymru yn cael eu cyflogi mewn sectorau sydd wedi'u heffeithio gan y mesurau cau treigl. Mae cyflogeion o dan 25 oed, menywod a gweithwyr o ethnigrwydd Bangladeshaidd, Du Caribiaidd a Phacistanaid hefyd yn lawer mwy tebygol o weithio mewn sectorau sydd wedi'u heffeithio gan fesurau cau (Dadansoddiad Cyllidol Cymru, 2020).
38. Y nod polisi hirdymor y dylid ei osod yw i atal tloidi'n gyfan gwbl yn hytrach na'i leihau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio trawslywodraethol a buddsoddi mewn swyddi cynaliadwy,

gan gynnwys swyddi gwyrdd a glas. Mae gan y sector menter gymdeithasol rôl allweddol i'w chwarae yma.

39. Mae'n debygol y bydd mwy o angen am ddau fath o gymorth: cymorth tlodi uniongyrchol a chymorth gyda chyflogadwyedd a sgiliau. Mae'r sector gwirfoddol yn effeithiol o ran gallu cyrraedd pobl sydd wedi'u hymyleiddio mwy gan gymdeithas.
40. Mae Cyngor ar Bopeth wedi nodi bod angen i unrhyw strategaeth lleihau tlodi ystyried pwyslais ar incwm, gydag adnoddau'n cael eu dyrannu i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cymorth y mae ganddynt yr hawl i'w gael a'i bod yn gallu hawlio'r cymorth hwn.
41. Pam nad yw meysydd posibl eraill o anghydraddoldeb – hil, crefydd, oedran, rhywedd ac ati – wedi'u cynnwys o fewn cylch gwaith y cwestiwn hwn? Mae anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes o fewn y sector a'r gymdeithas ehangach wedi dod yn fwy amlwg yn ystod yr argyfwng.
42. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i glustnodi cyfran o'r gyllideb sgiliau a chyflogadwyedd gyffredinol ar gyfer grwpiau anoddach eu cyrraedd, gyda chydabyddiaeth fod asiantaethau'r sector gwirfoddol yn rhan allweddol o gyflawni hyn.

### **... DULL GWEITHREDU O RAN GWARIANT ATALIOL A SUT Y CYNRYCHIOLIR HYN WRTH DDYRANNU ADNODDAU.**

43. Mae'r sector yn gytun ar bwysigrwydd gwariant ataliol fel modd o leihau costau gofal sylfaenol diweddarach. Cafodd iechyd meddwl, gofal cymdeithasol, llesiant a phlant a phobl ifanc eu nodi fel meysydd pwysig i ddyrannu adnoddau ar eu cyfer.
44. Mae'n rhaid i gyd-gynhyrchu chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau ataliol. Fodd bynnag, rhaid i hyn fod yn gyd-gynhyrchu go iawn, heb fod un partner yn cael ei ystyried yn llai pwysig nag eraill, neu'n cael ei anwybyddu hyd nes y cyrhaeddir cam pellach o lawer yn y gwaith datblygu.
45. Mae'n bosibl y bydd presgripsiynu cymdeithasol yn dod yn fwyfwy hanfodol o ran brwydro unigrwydd, ynysu a phroblemau iechyd meddwl sydd wedi datblygu o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r strategaeth Cysylltu Cymunedau yn nodi pwysigrwydd presgripsiynu cymdeithasol i Lywodraeth Cymru, ond rhaid bwydo cryn dipyn o adnoddau i mewn i grwpiau cymunedol, clybiau chwaraeon ac ati er mwyn iddynt allu ymdrin â'r cynnydd mawr posibl mewn gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol mewn modd effeithiol ac effeithlon.



46. Mae CGGC a'r 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) yn hyrwyddo ac yn gweithio ar [Infoengine](#), cronfa ddata o wasanaethau'r sector gwirfoddol, fel offeryn chwilio hanfodol ar gyfer dinasyddion, gwasanaethau'r sector cyhoeddus a gwasanaethau'r trydydd sector. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r llywodraeth i hyrwyddo'r porth hwn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn cynorthwyo â'r agenda ataliol.

### **... CYNALIADWYEDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS, ARLOESI A THRAWSNEWID GWASANAETHAU**

47. Dros yr haf, daeth cymunedau at ei gilydd yn gyflym, yn aml heb strwythurau ffurfiol, i gynorthwyo â gwasanaethau. Gwnaeth y rhyddid hwn rymuso cymunedau i ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain i broblemau cymorth a llenwi bylchau yn y cymorth hwn. Nawr, dylai darparwyr gwasanaethau geisio gweithio'n gydgyhyrchiol gyda chymunedau a'r sector o hyn ymlaen, os nad ydynt wedi bod yn gwneud hyn eisoes, a dylai Llywodraeth Cymru geisio cefnogi'r ffordd newydd, fwy sionc hon o weithio lle bynnag y bo'n bosibl.

48. Mae CGGC yn bartner yn Rhwydwaith Cydgyhyrchu Cymru. Mae [Sylfaen Wybodaeth](#) y Rhwydwaith yn adnodd hynod o ddefnyddiol ar gyfer darparwyr gwasanaethau.

49. Ni ddylid tanbrizio gwerth rôl y sector mewn gwasanaethau cyhoeddus trawsnewidiol, a dylid rhoi adnoddau a chymorth iddo – gan gynnwys rhoi llais effeithiol iddo ar lefel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – i barhau â'r gwaith hanfodol y mae'n ei gynnig yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn a'i gryfhau.

50. Dylid cytuno ar drefniadau ar lefel genedlaethol er mwyn galluogi llwybrau i gael eu creu i'r sector cyhoeddus gydweithio â'r sector gwirfoddol, cryfhau ein gallu i ymateb ac osgoi cael ein diystyru neu ein gorfodi i ailddyfeisio'r olwyn - drwy drefniadau compact effeithiol, er enghraifft. Yn ogystal, pan mae cyllid yn cael ei ryddhau i bartneriaid statudol - er enghraifft, i hwyluso'r cymorth i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty - mae'n bwysig bod y sector gwirfoddol yn cael ei gynnwys yn ddiamwys yn y buddsoddiad ychwanegol.

51. Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn gynaliadwy, mae angen i fudiadau gael eu costau craidd (fel staffio a TG) wedi'u cyllido, heb ddisgwyl iddynt ddibynnu ar gyllid prosiect tymor byr. Mae hwn yn rhywbeth y gwnaethom ei grybwyll y llynedd, ond mae'n fwy perthnasol nag erioed yn y cyfnod ansicr sydd ohoni.

52. Serch heriau'r pandemig, mae'n rhaid i waith barhau er mwyn sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i gael eu hintegreiddio a bod gwasanaethau'n 'gydgysylltiedig', fel y nodir yng nghynllun Cymru Iachach.

53. Er ein bod yn deall pwysigrwydd arloesedd, mae'n bwysig cofio os yw model yn gweithio'n dda i'r rheini y mae'n ei wasanaethu, ni ddylai fod yn angenrheidiol i ddarparwyr

gwasanaethau lunio model newydd sbon yn eu cynnig cyllido nesaf dim ond er mwyn bod yn arloesol. Os yw model yn gweithio, mae'n gweithio.

54. Mae gwasanaethau cynghori wedi gweld ymchwydd mewn galw yn ystod y pandemig a bydd angen rhagor o gymorth arnynt. Bydd ceisiadau am gyngor ar ddyledion a throï allan/adfeddu/digartrefedd yn siŵr o barhau i gynyddu am gryn amser i ddod.
55. Dylid buddsoddi er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chomisiynu a chaffael ar bob lefel mewn modd cyson.
56. Dyluniwyd yr [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru](#), a ardystiwyd gan Lywodraeth Cymru, i helpu darparwyr gwasanaethau i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd. Argymhellwn fod yr holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn eu defnyddio i'w helpu gyda'u gwaith.

### **... SUT Y MAE TYSTIOLAETH YN LLYWIO GWAITH LLYWODRAETH CYMRU O RAN PENNU BLAENORIAETHAU A DYRANNU'R GYLLIDEB**

57. Bob blwyddyn, rydym yn derbyn sylwadau gan y sector nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi eglurhad effeithiol ar sut mae'n ystyried tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau cyllidebu.
58. Rydym yn parhau i annog Llywodraeth Cymru i gasglu data pellach ar sut mae awdurdodau lleol yn cyllido'r sector gwirfoddol. Dim ond cynyddu bydd y gwaith craffu ar sut y caiff y sector ei gyllido a sut mae'n gwario ei arian yn ystod y cyfnod adfer o'r pandemig yn ôl pob tebyg, felly mae'n bwysig bod y maes hwn yn cael sylw. Mae bylchau sylweddol yn y data sy'n bodoli ar y pwnc hwn ar hyn o bryd.
59. Mae ein [Porth Data'r Trydydd Sector](#) yn olrhain data sy'n ymwneud â'r sector gwirfoddol mewn nifer o feysydd. Gwahoddwn Lywodraeth Cymru, y sector, cyllidwyr ac ymchwilyr i ddefnyddio'r adnodd hwn.

### **... SUT Y DYLAI LLYWODRAETH CYMRU DDEFNYDDIO PWERAU TRETHU A BENTHYCA**

60. Dylai'r arian a godir o drethiant a benthyca gael ei ddefnyddio i drechu'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac helpu i'n llywio ni tuag at greu Economi Sylfaenol lwyddiannus.
61. Ni ddylai'r rheini sy'n dioddef o dlodi orfod dioddef yn anghymesurol gan drethiant ychwanegol.

62. Mae gan y sector brofiad o ddefnyddio'r trethi sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd, fel Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a dylid gofyn am ei fewnbwn yn ystod trafodaethau pellach ynghylch pwerau trethiant a benthyca.

### **... CEFNOGAETH I FUSNESAU, TWF ECONOMAIDD AC AMAETHYDDIAETH AR ÔL I'R CYFNOD PONTIO EWROPEAIDD DDOD I BEN**

63. Rydym yn gobeithio y bydd mwy o eglurder ar gynnig Llywodraeth Cymru i gefnogi'r maes hwn ymhellach ar ôl araith y Canghellor ar ddiwedd mis Tachwedd.

64. Fel y nodwyd yn flaenorol, gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gadw'i haddewid na fydd Cymru'r un geiniog yn waeth ei byd ar ôl ymadael â'r UE.

65. Mae gennym bryderon mawr o hyd ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn enwedig yn sgil Bil y Farchnad Fewnol sydd, yn ôl pob golwg, yn mynd yn groes i'r setliad datganoli. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau i'r eithaf i sicrhau y gall Cymru benderfynu sut i wario ei chyfran o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gyda llais y sector yn cael ei glywed yn y trafodaethau hyn, a bod materion masnachol a materion datganoledig eraill y mae Bil y Farchnad Fewnol yn gwrthdaro â nhw yn parhau i fod yn feysydd i Gymru a Chymru yn unig.

66. Mae Cymru yn wlad lai o faint ac yn debygol o golli allan i wledydd mwy sydd eisiau archebion mwy o faint. Os bydd Cymru yn aros y tu allan i broses gaffael y DU/UE, bydd dan anfantais gan na fydd yn gallu negodi ar raddfa fawr.

67. Dylid defnyddio'r arbenigedd sydd gan y sector mewn perthynas â'r economi sylfaenol, amrywiaeth, cydraddoldeb, menter gymdeithasol a datblygu cynaliadwy i gyfrannu at y drafodaeth ar ddatblygu economaidd yn y dyfodol.

68. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru:

- Roi Cynllun Gweithredu Menter Gymdeithasol ar waith, sy'n seiliedig ar y weledigaeth ddiweddar ar gyfer Menter Gymdeithasol.
- Datblygu amrediad ehangach o gyllid amgen, fel buddsoddi cymdeithasol a chyllid gwaddol neu gynorthwyo mudiadau i symud i fodel cyllido mwy amrywiol.
- Adeiladu ar sefydliad Cymuned Ymarfer Cronfa Her yr Economi Sylfaenol er mwyn dwyn pobl ynghyd ar draws y sector/sectorau i gydweithio a dysgu.
- Ehangu ei rhaglenni ar gyfer cynhwysiant digidol, gan gynnwys cynnig band eang cyflym i fwy o ardaloedd a gwella sgiliau digidol ymhlith y rhannau hynny o'r boblogaeth sydd wedi'u hymyleiddio.
- Datblygu rhaglen sy'n cynnig mynediad rhad at gredyd ar gyfer cyfarpar digidol i bobl sydd ei angen er mwyn cael gwaith, hyfforddiant neu fynediad at wasanaethau.

- Cydweithio i adeiladu a chefnogi rhaglen gyflogadwyedd a sgiliau a arweinir gan y sector gwirfoddol, gan adeiladu ar y ddarpariaeth gyfredol sydd eisoes ar waith.

## **... BETH YW'R CYFLEOEDD ALLWEDDOL I FUDDSODDIAD Y LLYWODRAETH GEFNOGI 'AILGODI'N GRYFACH'?**

69. Mae cymunedau yn allweddol i ailgodi'n gryfach, felly mae buddsoddi mewn canolfannau cymunedol yn bwysig er mwyn i bobl gael lleoedd i ymgasglu er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio arnynt hwy ar lefel leol.
70. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ymddiried yn ei phartneriaid allanol er mwyn sicrhau ei bod yn gallu ailgodi'n gryfach. Er enghraifft, ymddiriedwyd yn Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru i helpu i ddylunio a darparu cymorth ar gyfer y pandemig, ac mae asiantaethau eraill sy'n ailgodi'n gryfach eu hunain ac yn helpu eraill i wneud yr un peth. Dylid adeiladu ar y llwyddiant blaenorol hwn.
71. Mae'r Pwyllgor Materion Cyhoeddus yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y rhwystrau i roi Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith yn llwyddiannus. Dylai Llywodraeth Cymru astudio'r adroddiad canlyniadol. Awgryma ein hymgysylltiad cynnar â'r sector cyn ein hymateb fod problemau o ran sut mae'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith.
72. Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi yn y seilwaith gwirfoddoli – platfformau a phobl – er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o bobl sy'n cyfrannu drwy wirfoddoli mewn ffyrdd amrywiol, diogel a gwerthfawr.
73. Mae'n rhaid cynnwys gwirfoddolwyr ifanc yn y broses o ailgodi'n gryfach. Gwelwyd ymchwydd cyflym yn y diddordeb mewn gwirfoddoli rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, pan wnaeth 7,706 o bobl ifanc ychwanegol rhwng 14 a 25 oed gofrestru diddordeb mewn gwirfoddoli yng Nghymru. Gall buddsoddi yn y seilwaith sicrhau bod y brwdfrydedd hwn yn cael ei gadw a'i feithrin.

## **TRAFODAETH**

74. Bydd CGGC yn falch o drafod y pwyntiau hyn neu unrhyw bwyntiau eraill sy'n ymwneud â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad gyda swyddogion, pwyllgorau neu Weinidogion yn ôl y gofyn.

*David Cook,*  
*Swyddog Polisi, CGGC*  
[dcook@wcva.org.uk](mailto:dcook@wcva.org.uk)

*Tachwedd 2020*